

**CRONFA BENSIYNAU
CAERDYDD A
BRO MORGANNWG**

**ADRODDIAD
BLYNYDDOL
A
CHYFRIFON**

2014/2015

CRYNODEB A CHYNNWYS

CRYNODEB GWEITHREDOL

- Mae cyfanswm y Gronfa yn parhau i godi. Cyrhaeddodd £1.68 biliwn ar 31 Mawrth 2015, sy'n gynydd ar brisiad diwedd y flwyddyn ddiwethaf, a oedd yn £1.49 biliwn.
- Bu'r marchnadoedd ecwiti yn gadarnhaol eto dros y deuddeng mis diwethaf a chafodd y Gronfa enillion o 12.6% ar ei buddsoddiadau ar gyfer blwyddyn 2014/15 (ar ôl costau), a oedd yn 0.5% uwchlaw'r meincnod enillion, sef: 12.1%
- Mae sefyllfa llif arian y Gronfa'n parhau'n gadarnhaol o ran y cyfraniadau a dderbyniwyd a'r budd-daliadau a dalwyd, a chafwyd ychwanegiad net o £3.9 miliwn.
- Gwelwyd cynnydd o 1.5% yn aelodau gweithredol y gronfa i dros 14,000 a chododd nifer y pensiynwyr 3.3% gan gyrraedd dros 10,000 am y tro cyntaf eleni.
- Ar adeg prisiad diweddaraf yr actwari ar 31 Mawrth 2013, roedd lefel y cyllido yn 82%, sy'n gynydd sylweddol ar lefel cyllido 2010 gynt.

CYNNWYS

Crynodeb Gweithredol	1
Rhagair	2
Aelodau ac Ymgynghorwyr	3
Gweinyddu'r Gronfa	4
Rheoli Buddsoddiadau	5
Perfformiad Buddsoddiadau	7
Datganiad yr Archwilydd	9
Datganiad Actiwaraid	10
Datganiad o Gyfrifon	12
Nodiadau i'r Cyfrifon	14
Atodiad 1: Data Buddsoddi	29
Rhagor o wybodaeth	32

RHAGAIR

Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, sydd yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) i Gymru a Lloegr, yw Cyngor Dinas Caerdydd. Llywodraeth y DU sy'n penderfynu ar y rheoliadau i'r Cynllun.

Tyfodd asedau'r Gronfa Bensiwn gan 12.5% yn ystod 2014/15, o £1.49 biliwn i £1.68 biliwn. Er gwaethaf cyfnodau ansefydlog, roedd perfformiad y marchnadoedd ecwiti byd-eang yn dda dros y flwyddyn, gyda gwerthoedd asedau'n tyfu gan dros 20% mewn gwerth sterling mewn rhai rhanbarthau tramor. Mae'r Gronfa wedi cael budd o gytundeb y Panel Ymgynghorol ar Fuddsoddi i gynyddu cyfran yr asedau a fuddsoddir dramor. Mae cyfraddau llog isel yn parhau'n destun pryder ac rydym yn amcangyfrif bod rhwymedigaethau'r Gronfa hefyd wedi cynyddu ers prisiant 2013. Bydd y prisiant nesaf yn 2016.

Cyflwynwyd rheoliadau newydd i'r CPLIL ar 1 Ebrill 2014. Mae'r cynllun bellach yn drefniadau Enillion Cyfartalog Gyrfa a Ail-brisiwyd (CARE) sy'n gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, er bod budd-daliadau a enillwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi'u diogelu a bydd o hyd yn seiliedig ar wasanaeth unigolion hyd at 31 Mawrth 2014, a'r cyflog terfynol ar ymdeol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol wedi ymgynghori ar faterion sy'n effeithio ar lywodraethu a strwythur y CPLIL. Ym mis Mai a mis Mehefin 2014, cyhoeddwyd ymgynghoriadau ar gydfuddsoddi a rheoliadau drafft ar lywodraethu'r cynllun. Er nad yw'r llywodraeth wedi gwneud mwy o gyhoeddiadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar fuddsoddiadau, rhoddwyd y manylion terfynol ar reoliadau'r llywodraeth ym mis Ionawr 2015. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod gweinyddu CPLIL sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol i gydymffurfio â Deddf Pensiynau'r Sector Cyhoeddus 2013.

Sefydlodd Cyngor Dinas Caerdydd ei Fwrdd Pensiwn Lleol ar 29 Ionawr 2015. Mae'r Bwrdd yn cynnwys tri chynrychiolydd o blith cyflogeion, tri chynrychiolydd o blith aelodau'r cynllun a chadeirydd annibynnol nad oes ganddo bleidlais. Rôl y Bwrdd yw cynorthwyo'r Cyngor â sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau CPLIL a deddfwriaeth gysylltiedig. Bydd gwybodaeth am aelodaeth a gweithgareddau'r Bwrdd ar wefan y Cyngor.

Er gwaetha'r newidiadau hyn, prif amcan y Gronfa o hyd yw darparu pensiynau mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, gyda'r nod o leihau'r byrdwn ar gyflogeion sy'n talu cyfraniadau dros yr hirdymor.

Christine Salter
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
Mehefin 2015

AELODAU AC YMGYNGHORWYR

RHEOLAETH Y CYNLLUN AC YMGYNGHORWYR

Dirprwyodd y Cyngor gyfrifoldeb am y Gronfa i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Adnoddau. Caiff gyngor ar faterion buddsoddi gan y Panel Ymgynghorol ar Fuddsoddi. Aelodau'r Panel yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth 2015 oedd:

Y Cyng G Hinchey	(Cadeirydd) Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad, Cyngor Dinas Caerdydd
Y Cyng J Evans	Aelod, Cyngor Dinas Caerdydd
Y Cyng R McKerlich	Aelod, Cyngor Dinas Caerdydd
Y Cyng F Johnson	Aelod, Cyngor Bro Morgannwg (Arsylwr)
Mr S Bates	Ymgynghorydd Annibynnol
Ms C Burton	Ymgynghorydd Annibynnol
Mrs C Salter	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau, Cyngor Caerdydd

Rheolwyr Buddsoddiadau

Bondiau Byd-eang	- Aberdeen Asset Management
Ecwiti wedi'i Fynegeo yn y DU	- Blackrock Investment Management
Ecwiti wedi'i Fynegeo, DU ac UDA	- State Street Global Advisers
Ecwiti Gweithredol yn y DU	- Invesco Perpetual
	- JP Morgan
	- Majedie
Ecwiti Gweithredol yn Ewrop (ac eithrio'r DU)	- State Street Global Advisers
Ecwiti Gweithredol Asia-Cefnfor Tawel	- Schroders Investment Management
Ecwiti Gweithredol, Siapan	- Nikko Asset Management
Ecwiti yn y Marchnadoedd Datblygol	- Aberdeen Asset Management
Rheoli Arian Cyfred	- Mesirow
Ecwiti Preifat	- Capital Dynamics
	- Harbourvest
	- Pantheon
Eiddo yn y DU	- Blackrock
	- Schroders
	- Standard Life
	- UBS
Eiddo Byd Eang	- CB Richard Ellis

Ymgynghorwyr Proffesiynol

Ymgynghorwyr proffesiynol y Gronfa yn ystod y flwyddyn oedd:

Actiwaiaid	Aon Hewitt Limited
Archwilydd	Archwilydd Cyffredinol Cymru
Bancwyr	Banc Lloyds plc
Ceidwad	The Northern Trust Company
Adroddiadau Perfformiad	State Street Global Services
Ymgynghorwyr Annibynnol	Mr S Bates a Ms C Burton
Ymgynghorwyr Cyfreithiol	Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Caerdydd Sacker and Partners
Gweinyddu a'r Gyflogres Darparwr AVC	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau, Cyngor Caerdydd Prudential Assurance

GWEINYDDU'R GRONFA

Y mae'r rheolau sy'n llywodraethu'r Gronfa i'w cael yn Neddf Blwydd-daliadau 1972 a'r amryw Reoliadau LGPS a gyhoeddwyd gan y DCLG. Mae'r LGPS ar agor i bob gweithiwr awdurdod lleol ond am athrawon, y mae trefniadau ar wahân ar eu cyfer, ac mae'r Rheoliadau yn nodi bod gan weithwyr cyrff penodedig eraill yr un hawliau aelodaeth a sydd gan weithwyr awdurdodau lleol. Rhoddir pŵer i gynnwys cyrff penodol eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodiad o nifer y cyflogwyr gweithredol a'r rhai nad yw'n cyfrannu bellach i'r Gronfa:

	Gweithredol	Nad yw'n cyfrannu bellach	Cyfanswm
Cyrff Rhestredig	17	12	29
Cyrff a dderbyniwyd	19	23	42
Cyfanswm	36	35	71

Er bod Cyngor Dinas Caerdydd yn gyfrifol am weinyddu'r Gronfa, mae ganddo'r un berthynas â'r Gronfa â'r 36 o gyflogwyr sy'n cyfrannu i'r Gronfa. Rhoddir rhestr lawn o gyflogwyr yn Nodyn 5 i'r cyfrifon.

Cwyd incwm y gronfa o enillion ar fuddsoddiadau a chyfraniadau gan gyflogwyr a chyflogeion. Yn ystod 2014/15 amrywiodd y cyfraddau cyflogeion a bennir yn genedlaethol rhwng 5.5% a 12.5% o'u tâl yn dibynnu ar dâl blyneddol yr aelod. Cyfrifir cyfraddau cyflogwyr gan actiwari'r cynllun yn y prisiant actiwaraid a gynhelir bob tair blynedd ac fe'u mynegir fel canran o'r tâl. I rai cyflogwyr, mae'r actiwari hefyd wedi nodi symiau arian parod ychwanegol sydd i'w talu ym mhob blwyddyn ariannol.

CYNNYDD PENSIYNAU

Mae pensiynau'n destun cynnydd gofynnol blyneddol a bennir gan y cynnydd yn y Mynegai Prisiau Cwsmeriaid yn ystod y deuddeg mis a ragflaenodd y mis Medi blaenorol. Mae'r cynnydd yn daladwy gan y Gronfa, gyda chynnydd yn y dyfodol wedi'i amcangyfrif ym mhob prisiant a gynhelir bob tair blynedd. Caiff unrhyw amrywiadau eu haddasu mewn prisiannau dilynol drwy gyfradd cyfraniadau cyflogwr diwethaf y pensiynwr cyn iddo ymddeol. Daw'r cynnydd i rym yn wythnos lawn gyntaf pob blwyddyn ariannol. Y cynnydd yn 2014/15 oedd 2.7% a'r cynnydd yn 2015/16 fydd 1.2%.

CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (AVC)

Prudential Assurance yw darparwr AVC y Gronfa o hyd. Yn ystod 2014/15, parhaodd i gynnig gwybodaeth a gweithdai i aelodau'r Cynllun.

Mae ganddo wefan AVC ar gyfer Llywodraeth Leol yn:

<http://www.pru.co.uk/content/schemes/localgovavc>

DATBLYGIADAU 2014/15

Daeth Rheoliadau newydd y Cynllun ar gyfer aelodaeth, cyfraniadau a buddiannau i rym ar 1 Ebrill 2014. Y prif newid yw'r symud o fod yn gynllun cyflog terfynol i fod yn gynllun cymedrig cyflog; serch hyn, bydd y buddiannau a fu'n tyfu hyd at 31 Mawrth 2014 yn ddiogel ac yn seiliedig ar hyd cyfnod y gwasanaeth tan y dyddiad hwnnw a'r cyflog terfynol ar y dyddiad ymddeol. Mae newidiadau eraill yn cynnwys cynllun bandio ar gyfer cyfraddau cyfraniadau'r gweithiwr, a'r dewis o gyfrannu 50% yn gyfnewid am ennill 50% mewn buddiannau.

Pasiwyd Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus ym mis Ebrill 2013 ac mae'n gofyn i bob cynllun sector cyhoeddus sefydlu Bwrdd Pensiynau i gynorthwyo rheolwr y cynllun sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r cynllun. Cyhoeddodd Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol y Llywodraeth ymgynghoriad ar reoliadau drafft ar gyfer sefydlu Bwrdd Pensiynau lleol ac yna cyhoeddodd y rheoliadau terfynol ym mis Ionawr 2015. Bu i Gyngor Dinas Caerdydd sefydlu Bwrdd Pensiynau Lleol ar gyfer y Gronfa ar 29 Ionawr a phenodwyd aelodau i'r Bwrdd ym mis Mehefin a mis Gorffennaf.

RHEOLI BUDDSODDIADAU

PWERAU BUDDSODDI

Mae prif bwerau buddsoddi'r Gronfa yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009. Mae'r Rheoliadau'n dyfarnu pŵer i awdurdodau gweinyddu ddirprwyo penderfyniadau ar fuddsoddi i reolwyr allanol ar yr amod eu bod yn ystyried amrywiaeth resymol a digonol o reolwyr. Rhaid adolygu rheolwyr a benodwyd a'r buddsoddiadau a wneir ganddynt yn gyfnodol. Rhaid cael cyngor priodol wrth benderfynu ar fathau addas o fuddsoddi.

AMCAN BUDDSODDI

Amcan buddsoddi cyffredinol y Gronfa yw sicrhau'r elw mwyaf posibl o fuddsoddi a lleihau neu o leiaf sefydlogi cyfraniadau gan gyflogwyr yn y dyfodol dros yr hirdymor o fewn lefel dderbyniol o risg. Rhaid cofio dau ffactor arbennig wrth gyflawni'r amcan hwn: natur hirdymor y rhwymedigaethau a'r ffaith bod rhwymedigaethau naill ai'n gysylltiedig â thaliadau cydnabyddiaeth ar adeg ymddeol (o ran buddiannau a gronwyd cyn 31 Mawrth 2014) neu'n gysylltiedig â chwyddiant (o ran pensiynau sy'n cael eu talu a'r holl fuddiannau a gronwyd ar ôl 1 Ebrill 2014).

Ceisio'r Gronfa, mewn ffordd ddarvoudus, fodloni'r gofyniad rheoliadol i sicrhau diddyledrwydd y Gronfa dros gyfnod o amser (h.y. sicrhau bod gwerth asedau'r Gronfa gyfwerth â, neu'n fwy, na'i rhwymedigaethau cronol, a fesurir drwy ddulliau a rhagdybiaethau actiwaraidd 'parhaus'.) Cyfrifir y cyfnod hwn ynghyd â'r lefel ariannu bob tair blynedd gan yr actiwari ar ôl adolygiad o ddigonolrwydd asedau'r Gronfa i gyflawni ei rhwymedigaethau. Mae'r Panel yn ystyried y sefyllfa actiwaraidd a lefel yr ariannu wrth baratoi cyngor ar fuddsoddi strategol.

Cwblhawyd ymarfer prisiant actiwaraidd 2013 ym mis Mawrth 2014. Mae'r Adroddiad Prisio a'r Datganiad ar y Strategaeth Ariannol ar gael ar wefan Cyngor Dinas Caerdydd www.cardiff.gov.uk/CY/Your-Council/Council-finance/Pensions/Pages/default.aspx.

Cyfrifwyd cymhareb ariannu asedau yn erbyn rhwymedigaethau ar 82%. Gyda bondiau aeddfedu'n parhau ar lefelau hanesyddol isel, cafwyd cynnydd mewn rhwymedigaethau, a chafodd y Gronfa fudd o adolygiad o ragdybiaethau demograffeg ac elw uwch na'r disgwyl ar fuddsoddiadau. Mae'r Actiwari wedi rhoi cyngor i'r Gronfa ar gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr addas, a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2014, a fydd yn adennill y diffyg dros gyfnodau rhesymol. Bydd y Panel yn monitro sefyllfa'r Gronfa ac yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r strategaeth fuddsoddi.

RHEOLI'R GRONFA

Nod y Panel Ymgynghorol ar Fuddsoddi yw cwrdd â phob rheolwr sydd â phortffolio a reolir o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae hefyd yn ystyried hyn yn ei gyfarfodydd blynyddol:

- Amcan cyffredinol y Gronfa a lefel y risg buddsoddi
- Y Gronfa gyffredinol a pherfformiad rheolwyr unigol
- Trefniadau rheoli buddsoddiadau'r Gronfa
- Dyrannu asedau'n strategol dros brif sectorau'r farchnad ac ardaloedd daearyddol, gan gynnwys y rhaniad rhwng rheoli goddefol a gweithredol.

Christine Salter, y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau, sydd â chyfrifoldeb ffurfiol am benderfyniadau ar fuddsoddi, dan bwerau a ddirprwywyd gan y Cyngor.

Strwythurir y gwaith o reoli'r Gronfa ar sail arbenigaeth, gyda rheolwyr unigol yn cael eu neilltuo i sectorau neu ardaloedd daearyddol penodol (gweler isod restr o reolwyr a'u cyfrifoldebau). Lle y bo'n bosibl, rhoddir targed perfformiad clir i bob rheolwr, ond yn gyffredinol caiff hefyd ryddid sylweddol o ran sut i gyflawni targedau. Cyfloga'r Gronfa geidwad byd-eang i sicrhau diogelwch yr holl asedau rhodd elusennol di-arian cyhoeddus, ac i reoli'r gwaith o ddelio â chyfnewidiadau ac adennill trethi. Rheolir gwaith yn ymwneud â gwarchod ecwiti preifat, ymddiriedolaethau unedau eiddo ac arian parod yn fewnol, gan nad yw'r asedau hyn yn cael eu masnachu'n gyhoeddus.

Y prif fath o wariant buddsoddiad yw ffioedd rheoli sy'n cynnwys cyfuniad o ffioedd ad valorem (amrywio â gwerth yr arian a reolir) a ffioedd perfformiad. Amrywia ffioedd gwarchodaeth yn dibynnu ar nifer y trafodion buddsoddi a wneir gan reolwyr y gronfa. Cwyd ffioedd i ymgynghorwyr

RHEOLI BUDDSODDIADAU

y Panel yn unol â thâl y Prif Swyddogion. Caiff yr holl ffioedd a godir eu rhoi i'r Gronfa a chânt eu talu o elw ar fuddsoddiadau. Swm y ffioedd rheoli yn 2013/14 oedd £3.98m (£3.16m yn 2012/13). Ffioedd gwarchod y flwyddyn oedd £117,000 (£108,000 yn 2012/13).

Mae'r Gronfa'n cyflogi State Street Global Services (Cwmni WM gynt) i fesur perfformiad rheolwyr buddsoddi a'r Gronfa yn ei chyfanrwydd. Adroddir y canlyniadau yn y Panel Ymgynghorol ar Fuddsoddi bob blwyddyn a chânt eu trafod isod yn yr adran ar Berfformiad Buddsoddi. Gellir gweld effeithiolrwydd penderfyniadau panel gan unrhyw allberfformiad drwy ddyrannu asedau a dewis rheolwyr, tra bod y rheolwyr hefyd yn dylanwadu ar berfformiad drwy ddethol stoc. Mae'r Panel Ymgynghorol ar Fuddsoddi'n asesu perfformiad rheolwyr buddsoddi ac yn penderfynu p'un a oes angen gweithredu e.e. newid y targedau perfformiad a risg neu derfynu mandad rheolwr.

DATGANIAD AR EGWYDDORION BUDDSODDI

Mae copi o'r Datganiad ar Egwyddorion Buddsoddi (DEB) ar gael ar wefan Cyngor Caerdydd yma:

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Cyllid-y-cyngor/Pensiynau/Pages/default.aspx>

Mae angen i gronfeydd pob LGPS lunio DEB dan Reoliadau LGPS (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009. Mae'r DEB yn crynhoi amcanion buddsoddi'r Gronfa a'r polisïau a ddefnyddia i reoli buddsoddiadau. Dan y rheoliadau mae'n rhaid i'r DEB hefyd gael ei baratoi mewn fformat sy'n cydymffurfio â chanllawiau a gyhoeddwyd gan DCLG. Mae'r canllawiau hyn ar hyn o bryd yn dod o banel pensiynau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA), sy'n cydymffurfio â chwe egwyddor Myners ei hun. Mae'r DEB yn bodloni'r gofynion hyn, ac mae'r Gronfa'n cydymffurfio â phob un o egwyddorion Myners.

Crynoir syniadaeth buddsoddi'r Gronfa yn y ddogfen 'Credoau Buddsoddi Craidd' sydd ar gael ar y wefan.

PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU

CYFLWWYNIAD

Mae llwyddiant y Gronfa Bensiwn yn dibynnu ar farchnadoedd ecwiti'r byd. Bu enillion sylweddol ym mhob rhanbarth dros y flwyddyn er bod gwahaniaethau amlwg o ranbarth i ranbarth, yn amrywio o 25% yn Siapan a Gogledd America i 6% yn unig yn y DU. Bu i'r Gronfa gofnodi enillion o 12.6% ar fuddsoddiadau a bu i gyfanswm asedau'r buddsoddiadau godi o £1.47 biliwn i £1.65 biliwn. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwyslais ar amrywiadau tymor-byr oherwydd bod hanes rhan fwyaf y buddsoddiadau yn dangos bod cyfnodau hirion o enillion da a rhai gwael. Mae llewyrch cyllidol tymor hir y Gronfa yn dibynnu'n fwy ar enillion ei buddsoddiadau dros gyfnod o 10-20 mlynedd a ffactorau megis cyfraddau marwolaeth a lefelau'r cyfraniadau.

Dosbarthiad buddsoddiadau

Ceir dadansoddiad o'r portffolio buddsoddi dros y pum mlynedd ddiwethaf yn Atodiad 1. Adlewyrcha newidiadau yng ngwerthoedd y farchnad bolisi buddsoddi a pherfformiad cymharol marchnadoedd gwahanol.

Meincnod y cynllun

Mae'r Gronfa wedi cytuno ar ei feincnod a'i Amcan 'personol', yn seiliedig ar rannu dyraniadau asedau yn 75% Ecwiti a 25% Bondiau. Pennwyd hyn i sicrhau bod polisi dyrannu asedau'r Gronfa'n adlewyrchu ei nodweddion rhwymedigaeth ei hun ac nid lefel gyfartalog grŵp cymheiriaid. Fe'i cynlluniwyd hefyd i leihau, neu o leiaf sefydlogi, cyfraniadau gan gyflogwyr yn y dyfodol ac i osgoi amrywiadau mawr. Felly cynhelir gwir ddyraniad asedau'r Gronfa ar lefel sy'n agos at y dyraniad meincnod hwn.

PERFFORMIAD Y GRONFA

Yn 2014/15 cafwyd elw o 12.6% ar y Gronfa, 0.5% yn uwch na meincnod elw'r Gronfa sef 12.1%. Gellir priodoli perfformiad y gronfa i effeithiau dethol stoc a dyrannu asedau. Er yn hanesyddol fod penderfyniadau ar ddyrannu asedau wedi cael effaith fwy sylweddol ar elw absoliwt y Gronfa, yn y byrdymor mae'r gwerth a ychwanegwyd gan reolwyr unigol drwy ddethol stoc wedi cael effaith fwy ar y Gronfa.

i) Dyrannu Asedau

Argymhella'r Panel Ymgynghorol ar Fuddsoddi ddyraniadau ac ystodau targedau i bob dosbarth asedau, oddi mewn i'r amcan cyffredinol o sicrhau dyraniad 75% Ecwiti, 25% Bondiau. O ran Ecwiti, penderfynodd y panel yn 2011 i newid yn raddol gymhareb y buddsoddiadau DU:tramor o 60:40 i un fwy cydradd.

ii) Dethol Stoc

Rhydd i reolwyr portffolio gweithredol bŵer i wneud penderfyniadau ar fuddsoddi ond mae ganddynt hefyd dargedau perfformiad clir. Adolygir perfformiad pob portffolio bob chwarter yn fewnol, ac o leiaf unwaith y flwyddyn gan y Panel. Rhaid i reolwyr fynychu cyfarfodydd Panel o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau bod eu gweithredoedd yn cael eu harchwilio'n drylwyr a'i fod yn cyfleu'r hyn y mae wedi'i wneud.

PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU

Cymharodd perfformiad y portffolios gweithredol yn 2014/15 â'u meincnodau a'u targedau fel a ganlyn:

Rheolwr	Mandad (targed yn erbyn meincnod)	Elw Meincnod (%)	Targed Portffolio (%)	Elw Portffolio (%)
Aberdeen	Bondiau byd-eang (+1%)	11.6	12.6	10.0
State Street	Ecwiti Ewropeaidd (+2%)	7.5	9.5	6.7
Nikko	Ecwiti Siapaneaidd (+3%)	25.6	28.6	25.4
Schroders	Ecwiti Asia-Cefnfor Tawel (+3%)	20.0	23.0	20.1
Aberdeen	Ecwiti Marchadoedd Datblygol (+3%)	13.2	16.2	13.8
Invesco	Ecwiti yn y DU (anghyfyngedig)	6.6	N/A	16.2
JP Morgan	Ecwiti yn y DU (anghyfyngedig)	6.6	N/A	8.5
Majedie	Ecwiti yn y DU (+2%)	6.6	8.6	7.3
Cronfeydd Eiddo yn y DU (4)	Eiddo yn y DU	16.6	16.6	16.8
CBRE	Eiddo byd-eang (elw absoliwt o 10%)	N/A	10.0	13.1

Er mai 6.6% yn unig a enillodd ecwiti'r DU, oherwydd y bu i fuddsoddwyr ragweld ansicrwydd gwleidyddol yn dilyn etholiad cyffredinol Mai 2015, llwyddodd tri rheolwr gweithredol yn y DU yn well na'r farchnad a bu i ddau ohonyn wneud hynny o faint sylweddol. Hon yw'r bumed mlynedd yn olynol i'r Gronfa fod ar ei helw oherwydd rheolaeth gweithredol o ecwiti yn y DU.

Er bod enillion o Ecwiti Ewrop yn gadarnhaol, roedden nhw'n siomedig o'u cymharu â rhanbarthau tramor eraill, a bu i'r rheolwr fethu â chyrraedd y mynegrif mewn amgylchedd lle roedd pryderon gwleidyddol a macro economaidd yn fwy dylanwadol nag ystyriaeth o nodweddion sylfaenol y cwmnïau. Ymdeimlad y buddsoddwyr oedd yn gyfrifol am yr enillion cryf yn Siapan a gweddill Dwyrain Asia, ac roedd enillion y Gronfa'n agos iawn at y meincnod.

Er ei bod yn ddefnyddiol cymharu perfformiad rheolwyr dros y flwyddyn ddiwethaf, mae adolygiadau'r panel buddsoddi yn canolbwyntio ar berfformiad cyfartalog rheolwyr gweithredol dros 3-5 mlynedd i sicrhau y caiff amrywiadau yn y farchnad eu hystyried. O ran portffolio ecwiti preifat y Gronfa, nid yw ond yn bosibl asesu perfformiad dros gyfnod hwy ar ddiwedd oes cronfa ecwiti preifat.

Perfformiad y Gronfa yn y Tymor Hwyl

Mesurir elw cyffredinol y Gronfa Bensiynau orau yn yr hirdymor. Dros y degawd diwethaf sicraodd y Gronfa elw o 8.7% bob blwyddyn o gymharu â chynnydd o 3.0% yn y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) a 4.4% yn y Mynegai Enillion Wythnosol Cyfartalog (AWE). Gan ddefnyddio 2014/15 fel blwyddyn 'sail', roedd elw cymharol dros gyfnodau gwahanol fel a ganlyn:

	Cronfa % y.f.	RPI % y.f.	AWE % y.f.
1 flwyddyn (2014/15)	12.6	0.9	4.4
3 blynedd (2012/15)	12.1	2.2	1.9
5 mlynedd (2010/15)	9.3	3.1	1.9
10 mlynedd (2005/15)	8.7	3.0	2.7

DATGANIAD YR ARCHWILYDD

Datganiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg

Rwyf wedi archwilio cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2014-15 Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg er mwyn cadarnhau pa un a ydynt yn gyson â chyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon a baratowyd gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 a awdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 29 Medi 2015. Mae cyfrifon y gronfa bensiwn yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod Cyfrifyddu ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Yr Awdurdod Gweinyddu, Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Fy nghyfrifoldeb i yw nodi fy marn ar gysondeb cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol â chyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn Natganiad Cyfrifon yr Awdurdod Gweinyddu. Rwyf hefyd yn darllen y wybodaeth arall a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materol berthnasol o gymharu â chyfrifon y gronfa bensiwn.

Cynhaliais fy ngwaith yn seiliedig ar ofynion Bwletin 2008/3 a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae fy adroddiad ar gyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon a gynhyrchwyd gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn disgrifio sail fy marn ar y cyfrifon hynny.

Barn

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn gyson â chyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon a baratowyd gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 a awdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 29 Medi 2015 ac y cyflwynais farn ddiamod arnynt.

Nid wyf wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng y dyddiad y cyflwynais fy marn ar gyfrifon y gronfa bensiwn sydd wedi'u cynnwys yn Natganiad Cyfrifon yr awdurdod, sef 29 Medi 2015 a dyddiad y datganiad hwn.

Anthony Barrett

Dros ac ar ran:

**Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
4 Tachwedd 2015**

Mae'r gwaith o gynnal a chadw a chywirdeb gwefan y Cyngor yn gyfrifoldeb ar y Swyddog Cyfrifyddu; ni ystyrir y materion hyn fel rhan o'r gwaith a gynhelir gan archwilwyr, ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau i'r datganiadau ariannol, fyddai wedi digwydd, o bosib, ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn gyntaf.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyngor Dinas Caerdydd sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

DATGANIAD ACTIWARAIDD

Datganiad Actiwaraidd

Cronfa Bensiynau Caerdydd a Bro Morgannwg

Cyflwyniad

Rhaid cynnal prisiant actiwaraidd llawn bob tair blynedd yn ôl Rheoliadau'r Cynllun. Diben hyn yw pennu y gall Cronfa Bensiynau Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) gyflawni ei rhwymedigaethau i gyfranwyr, hen a newydd, ac adolygu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. Cwblhawyd yr archwiliad actiwaraidd llawn diwethaf ar sefyllfa ariannol y Gronfa ar 31 Mawrth 2013 gan Aon Hewitt Limited, yn unol â Rheoliad 36 Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008.

Sefyllfa Actiwaraidd

1. Dangosai'r prisiant ar 31 Mawrth 2013 fod cymhareb ariannu'r Gronfa wedi gwella ers y prisiant blaenorol, gyda gwerth marchnad asedau'r Gronfa ar y dyddiad hwnnw (£1.369m) yn cwmpasu 82% o'r rhwymedigaethau gan ganiatáu ar gyfer cynnydd mewn taliadau pensiwn yn y dyfodol, yn achos y rhai sydd eisoes yn cyfrannu at y Gronfa.

2. Dangosodd y prisiant hefyd lefel ofynnol y cyfraniadau i'w talu i'r Gronfa gan Gyflogwyr sy'n cyfrannu (ar gyfartaledd) o 1 Ebrill 2014, sef:

- 15.4% o dâl pensiynadwy. Hon yw'r gyfradd a gyfrifwyd yn gyfradd ddigonol, ynghyd â chyfraniadau a delir gan aelodau, i gyflawni'r rhwymedigaethau sy'n deillio o ran gwasanaeth ar ôl y dyddiad prisiant.

Hefyd

- Symiau ariannol i adfer yr asedau i 100% o'r rhwymedigaethau o ran y gwasanaeth cyn y dyddiad prisiant dros gyfnod adfer o 23 blynedd o 1 Ebrill 2014, sef cyfanswm o £16.9m yn 2014/15, gan gynyddu gan 3.4% y flwyddyn wedi hynny, cyn i unrhyw gynnydd gael ei wneud i gyfraniadau'n raddol.

Byddai hyn yn awgrymu cyfradd cyfraniadau cyflogwr o tua 22.2% o gyfanswm tâl pensiynadwy ar gyfartaledd, os yw'r aelodaeth yn aros yn gymharol sefydlog a bod y gyflogres yn cynyddu 3.4% y flwyddyn.

3. Yn ymarferol, caiff sefyllfa pob cyflogwr ei hasesu'n ar wahân a phennir cyfraniadau yn adroddiad Aon Hewitt dyddiedig 28 Mawrth 2014 (adroddiad y prisiant actiwaraidd). Yn ogystal â'r cyfraniadau a nodir uchod, gwneir taliadau i dalu am rwymedigaethau ychwanegol sy'n deillio o ymddeoliad cynnar (ond am ymddeol drwy salwch) i'r Gronfa gan gyflogwyr.

4. Mae'r cynllun ariannu a fabwysiadwyd i asesu cyfraniadau pob cyflogwr unigol yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Ariannu. Nodir dulliau gwahanol a fabwysiadwyd i sicrhau cynnydd mewn cyfraniadau a chyfnodau adfer cyflogwyr unigol yn yr adroddiad prisiant actiwaraidd.

5. Cynhaliwyd y prisiant actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull actiwaraidd uned amcanol ar y rhan fwyaf o gyflogwyr, a'r prif ragdybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd ar gyfer asesu'r targed ariannu a'r cyfraddau cyfraniadau oedd:

Cyfradd gostyngiad o ran cyfnod gwasanaethu	
Cyrrff Rhestredig	5.6% y/f
Cyrrff Derbyn	5.2% y/f
Cyfradd gostyngiad o ran cyfnodau ar ôl gadael gwasanaeth	
Cyrrff Rhestredig	5.6% y/f
Cyrrff Derbyn	3.9% y/f
Cyfradd cynnydd tâl	3.4% y/f
Cyfradd cynnydd cyfrifon pensiwn	2.4% y/f
Cyfradd cynnydd pensinynau a delir (yn fwy na'r Pensiwn Sylfaenol Gwarantiedig)	2.4% y/f

DATGANIAD ACTIWARAIDD

Prisiwyd yr asedau ar werth y farchnad.

Nodwyd manylion pellach am y rhagdybiaethau a fabwysiadwyd i'r prisiant yn yr adroddiad prisiant actiwaraid.

6. Mae canlyniadau'r prisiant, a grynhoir uchod, yn seiliedig ar sefyllfa ariannol a lefelau'r farchnad ar y dyddiad prisiant, 31 Mawrth 2013. O ganlyniad nid yw'r canlyniadau yn ystyried newidiadau a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad prisiant hwnnw.

7. Llofnodwyd yr adroddiad prisiant actiwaraid ffurfiol a'r dystysgrif Cyfraddau ac Addasu a nododd gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2017 ar 28 Mawrth 2014. Caiff cyfraddau cyfraniadau eu hadolygu gyda'r prisiant nesaf ar 31 Mawrth 2016 yn unol â Rheoliad 62 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

8. Paratowyd y datganiad hwn gan Actiwari'r Gronfa, Aon Hewitt Ltd, i'w gynnwys yng nghyfrifon Dinas a Sir Caerdydd. Rhydd grynodedb o ganlyniadau'r prisiant actiwaraid a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2013. Mae'r prisiant yn cynnig cipolwg o'r sefyllfa ariannol ar y dyddiad prisiant ac fe'i defnyddir i asesu lefel y cyfraniadau sydd ei hangen yn y dyfodol.

Ni cheir ystyried y datganiad hwn heb gyfeirio at yr adroddiad prisiant actiwaraid ffurfiol sy'n nodi'n llawn gyd-destun a chyfyngiadau'r prisiant actiwaraid.

Nid yw Aon Hewitt Limited yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd i unrhyw un ond am ein cleient, Dinas a Sir Caerdydd, o ran y datganiad hwn.

Mae'r adroddiad ar y prisiant actiwaraid ar 31 Mawrth 2013 ar gael ar wefan y Gronfa yma:

<https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Council-finance/Pensions/Documents/Actuarial%20Valuation%20Report%20-%2031%20March%202013.pdf>

Aon Hewitt Limited
Mai 2015

DATGANIAD O GYFRIFON

CYFRIF Y GRONFA AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2015

2013/14 £000		2014/15 £000
	CYFRANIADAU A BUDDIANNAU	
	Cyfraniadau a ddaeth i law	
58,961	gan gyflogwyr (nodyn 5)	58,471
15,720	gan gyflogeion (nodyn 5)	16,026
3,872	Trosglwyddiadau i mewn	2,978
23,630	Ariannu Diffyg (nodyn 5)	0
4,327	Incwm Arall (Taliadau Cyfartalog a llog ar ariannu diffyg)	5,134
106,510		82,609
	Buddiannau Taladwy	
(52,321)	Pensiynau (nodyn 6)	(55,983)
(16,784)	Cyfandaliadau (nodyn 6)	(19,439)
	Taladau i neu dros y rhai sy'n gadael y Gronfa	
(10)	Ad-dalu cyfraniadau	(76)
(4,668)	Trosglwyddiadau allan	(3,204)
(73,783)		(78,702)
	Ychwanegiadau (Tynnu arian allan) Net	
32,727	o ddelio ag Aelodau'r Gronfa	3,907
	ELW AR FUDDSODDIADAU	
12,746	Incwm Buddsoddi (nodyn 9)	17,388
104,275	Newid yng ngwerth marchnad buddsoddiadau (nodyn 10)	171,478
(5,048)	Costau rheoli buddsoddiadau (nodyn 9)	(5,759)
111,973	Elw Net ar Fuddsoddiadau	183,107
144,700	Cynydd (Gostyngiad) Net yn y Gronfa yn ystod y flwyddyn	187,014
1,347,803	Asedau Net y Cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	1,492,503
1,492,503	Asedau Net y Cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	1,679,517

DATGANIAD O GYFRIFON

DATGANIAD ASED AU NET AR 31 MAWRTH 2015

2013/14 £000		2014/15 £000
1,442,289	Gwerth marchnad buddsoddiadau (nodyn 10)	1,616,090
23,836	Arian Parod ac elw sy'n ddyledus ar fuddsoddiadau (nodyn 10)	37,061
1,466,125		1,653,151
	Asedau Cyfredol	
147	Treth y DU a Thramor	121
4,471	Cyfraniadau'n ddyledus gan Gyflogwyr ac ariannu diffyg	4,488
118	Mân Ddyledwyr (nodyn 14)	793
2,733	Costau pwysau pensiwn sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	3,078
7,469		8,480
	Asedau Anghyfredol	
18,022	Ariannu Diffyg (cyn-gyflogwyr)	15,618
4,857	Costau pwysau pensiwn sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn	6,253
22,879		21,871
	Rhwymedigaethau Cyfredol	
(2,811)	Buddiannau nas talwyd	(3,055)
(1,159)	Mân Gredydwyr (nodyn 14)	(930)
(3,970)		(3,985)
1,492,503	Asedau Net y Cynllun	1,679,517

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa Bensiynau ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/2015. Paratowyd y cyfrifon yn unol â Chod Ymarfer Cyfrifyddiaeth Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014/15 sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u diwygiwyd i'r sector cyhoeddus yn y DU.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y cynllun ac yn delio ag asedau net yr Awdurdod gweinyddu. Nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddiannau sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn. Dan IAS26 rhaid i'r Gronfa ddatgelu gwerth presennol actiwaraidd y buddiannau a addawyd wrth ymddeol. Cyfrifodd yr Actiwari, ar gyfer 31 Mawrth 2013, mai'r ffigur oedd £2,208.8 miliwn - £1,950.4 miliwn oedd y gwerth cymharol ym mhrisiant 31 Mawrth 2010.

Crynhwir y sefyllfa actiwaraidd yn y Datganiad Actiwaraidd sydd ar dudalennau 11 a 12. Dengys hyn mai'r lefel ariannu gyffredinol ar 31 Mawrth 2013 yw 82%.

2. Polisiau Cyfrifyddu

(a) Sail y Paratoadau

Ystyriwyd incwm bondiau a difidendau ar y dyddiad talu a nodir mewn contractau. Credydur incwm i eiddo ac ecwiti preifat pan ddaw i law. Nid yw'r Gronfa'n cyfrif am unrhyw fuddiannau sy'n daladwy neu sydd i'w derbyn o ran aelodau sydd am symud o un cynllun i'r llall nes i asedau (naill ai'n fuddsoddiadau arian parod neu'n fath arall o fuddsoddiadau) ddod i law'r cynllun sy'n eu derbyn. Cyfrifwyd am yr holl incwm a gwariant arall ar sail cronni, heblaw am y rhwymedigaeth i dalu pensiynau a buddiannau eraill yn y dyfodol. Yn unol ag IAS26, gwnaed datgeliad o rwymedigaeth pensiynau'r Gronfa h.y. gwerth cyfredol actiwaraidd buddiannau ymddeol a addawyd.

(b) Priso Buddiannau

Caiff dyfyn-fuddsoddiadau bond ac ecwiti eu priso ar werth y farchnad cynigion ar ddiwedd busnes ar ddiwrnod gwaith olaf Mawrth 2015 (hwn yw'r pris y gellir ei godi am fuddsoddiad ar ddiwrnod penodol). Caiff buddsoddiadau Cronfa Ecwiti Preifat eu priso ar werth teg, fel y penderfynir gan weinyddwyr y Gronfa, yn seiliedig ar brisiannau gan bartneriaid cyffredinol y buddsoddiadau gwaelodol. Pan fo hwn yn fuddsoddiad a fasnachir yn gyhoeddus mae'r prisiant yn seiliedig ar brisiau'r farchnad wrth iddi gau ar ddiwrnod mantolen y Gronfa. Os na fasnachir y buddsoddiad yn gyhoeddus, bydd y partner cyffredinol yn ystyried canlyniadau gweithrediadol y cwmni neu unrhyw drafodion diweddar yn y cwmni. Os nad yw diwedd blwyddyn cwmni yr un fath â diwedd blwyddyn y Gronfa Bensiynau, caiff y prisiant ei ddiweddarau o ran y galwadau a'r dosbarthiadau a wnaed rhwng dyddiad cyfrif a archwiliwyd y Gronfa Ecwiti Preifat a diwedd blwyddyn y Gronfa Bensiynau. Fel arfer, caiff cyd-ddulliau a ddefnyddir eu priso ar brisiau cynnig pan fo hynny ar gael. Troswyd buddsoddiadau tramor ar gyfraddau cyfnewid adeg cau WM/Reuters. Defnyddiwyd prisiau SETS swyddogol o ran cronfeydd FTSE100 (yn ychwanegol at y rhestr wrth gefn). Nodir Deilliadau ar werth y farchnad. Penderfynir ar werth contractau yn y dyfodol drwy ddefnyddio prisiau ar y dyddiad adrodd. Mae gwerth blaengontractau arian cyfred yn y dyfodol yn seiliedig ar flaengyfraddau cyfnewid y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn, a phenderfynir arno yn sgîl yr elw neu'r golled a gâi ei wneud petai'r contract presennol yn cael ei gydweddu ar ddiwedd y flwyddyn â chontract cyfwerth cyferbyniol.

(c) Barn gritigol wrth roi polisiau cyfrifyddu ar waith

Buddsoddiadau ecwiti preifat nas amcanir – Mae'r rhain o'u hanfod yn seiliedig ar flaenamcanestyniadau a barnau sydd wedi'u priso gan y rheolwyr buddsoddi gan ddefnyddio dwy set o ganllawiau priso sy'n berthnasol i ecwiti preifat; y Canllawiau Priso Ecwiti Preifat (PEVG) yn UDA a'r Canllawiau Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter Rhyngwladol (IPEVCG) y tu allan i UDA. Gwerth ecwiti preifat nas amcanir ar 31 Mawrth 2015 oedd £87 miliwn (£93 miliwn ar 31 Mawrth 2014).

Rhwymedigaeth cronfa bensiynau – Cyfrifir hyn gan yr actiwari bob tair blynedd gyda datganiad blynyddol yn ystod y blynyddoedd yn y canol. Cyfrifir hyn yn unol ag IAS19 a chrynhwir y prif ragdybiaethau a ddefnyddir yn y cyfrifiad yn natganiad yr actiwari ar dudalen 11 a 12. Mae'r amcanestyniad hwn yn seiliedig ar amrywiadau sylweddol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol.

NODIADAU I'R CYFRIFON

(ch) Rhagdybiaethau a wneir am y dyfodol a ffynonellau mawr sy'n peri ansicrwydd o ran amcanestyniadau.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys amcan ffigurau sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau eraill. Gan na ellir penderfynu ar falansau â sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol o ragdybiaethau ac amcanestyniadau mewn ffordd berthnasol.

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw'r canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r rhagdybiaethau
Gwerth cyfredol gwirioneddol buddiannau ymddeol a addawyd	Mae amcanestyniadau o'r rhwymedigaeth i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o farnau cymhleth o ran y gyfradd gostyngiad a ddefnyddir, y gyfradd codi cyflogau, newidiadau i gyfraddau marwolaeth ac elw disgwylidig ar asedau'r gronfa bensiynau. Mae'r actiwari yn rhoi cyngor i'r gronfa ar y rhagdybiaethau i'w defnyddio.	Gellir mesur yr effeithiau ar rwymedigaeth pensiwn net mewn rhagdybiaethau unigol. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y rhagdybiaeth o'r gyfradd gostyngiad yn arwain at ostyngiad yn y rhwymedigaeth pensiwn. Byddai cynnydd yn chwyddiant enillion rhagdybiedig neu ddisgwyliad oes rhagdybiedig yn cynyddu gwerth y rhwymedigaethau.
Prisiannau Ecwiti Preifat	Caiff buddsoddiadau ecwiti preifat eu prisio ar werth teg yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol. Ni restrir y buddsoddiadau hyn yn gyhoeddus ac o ganlyniad mae rhywfaint o amcanddyfalu'n rhan o'r prisiant.	Cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat yn y datganiadau ariannol yw £87 miliwn. Mae risg fod y buddsoddiad hwn wedi'i dangyfrif neu ei orgyfrif yn y cyfrifon.

(d) Costau caffael Buddsoddiadau

Mae costau caffael yn rhan o'r gost wreiddiol ar yr adeg prynu. Fodd bynnag, ar ddiwedd y flwyddyn, caiff buddsoddiadau ar y fantolen eu prisio yn unol â phris y farchnad. Caiff y gwahaniaeth ei gofnodi yn y Cyfrifon fel "Newid yng Ngwerth Marchnad Buddsoddiadau".

3. Trethiant

(a) Incwm yn y DU, Trethi Enillion Cyfalaf

Mae'r Gronfa wedi'i chymeradwyo i gael ei heithrio a gall adennill treth incwm yn y DU. Nid oes Treth Enillion Cyfalaf i'w chodi.

(b) Treth ar Werth

Nid yw'r cyfrifon a ddangosir yn cynnwys TAW. Gan mai'r Cyngor Sir yw'r awdurdod gweinyddu, caiff TAW ei hadennill ar holl weithgareddau'r Gronfa.

(c) Treth Ddidynnu Tramor

Fel arfer, mae buddsoddiadau tramor yn destun treth ddidynnu yn y wlad y deillia'r buddsoddiad ohoni, a gallai fod yn bosibl adennill rhywfaint ohoni. Caiff treth nad oes modd ei hadennill ei netio yn erbyn incwm.

4. Teitlau Perchnogaeth

